# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-03-07)

Dyddiad: 20 Medi 2007
Amser: 9.00 – 9.30am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Bae Caerdydd

### Aelodau Cynulliad yn bresennol

Mick Bates (Cadeirydd), Sir Drefaldwyn
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Alun Davies, Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lesley Griffiths, Wrecsam
Alun Ffred Jones, Arfon
Darren Millar, Gorllewin Clwyd
Karen Sinclair, De Clwyd
Brynle Williams, Gogledd Wales
Leanne Wood, Canol De Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Neb

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

### Eitem 2: Cynnig i ddiwygio aelodaeth yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

2.1 Cytunodd y Pwyllgor i gynnig gan y Cadeirydd i ddiwygio aelodaeth yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig. Gwnaed cynnig gan Brynle Williams i benodi Alun Ffred Jones yn lle Elin Jones fel Aelod o'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig. Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

### Eitem 3: Trafodaeth ar y papur cwmpasu ar gyfer ymchwiliad craffu'r Pwyllgor i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru

#### Papur: SC(3)-03-07(p.1)

3.1 Gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau ar y papur cwmpasu ar gyfer ymchwiliad craffu'r Pwyllgor i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru. Gofynnodd y Pwyllgor am gopïau o Strategaeth Amgylcheddol flaenorol y Llywodraeth.

Cododd y Pwyllgor nifer o faterion i'w hystyried yn ystod yr ymchwiliad a chytunwyd ar y papur cwmpasu.

### Eitem 4: Cytuno ar gylch gorchwyl, amserlen a thystion ymchwiliad craffu'r Pwyllgor i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru

#### Papur: SC(3)-03-07(p.2)

4.1 Trafododd y Pwyllgor gylch gorchwyl, amserlen a thystion ymchwiliad y Pwyllgor i leihau gollyngiadau carbon yng Nghymru. Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i gysylltu â'r Clerc gydag enwau unrhyw dystion y gallant eu hawgrymu ar gyfer yr ymchwiliad.